# NelsonLINK DOLENNelson



## CROESO I NELSON

Cafodd y dref ei henwi ar ôl tafarn y Lord Nelson, sydd yng nghanol y dref. Ni ddefnyddir 'Ffos y Gerddinen' gan lawer heddiw, sef yr enw gwreiddiol Cymraeg. Ystyr 'ffos' yw sianel wedi'i hagor ar dir i ddal dŵr, i ddraenio tir neu amddiffyn castell. Coeden yw cerddinen - "ash" yn Saesneg. Mae'r goeden yn gyffredin yn yr ardal gan roi'r enw Saesneg - 'Mountain Ash' i bentref cyfagos Aberpennar yng Nghwm Cynon.

**A wyddech chi?**
Roedd yr hen bentref mwyngloddio yn arfer bod yn gartref i Lofa Wernganol, a enwyd unwaith yn bwll glo lleiaf y byd.

## WELCOME TO NELSON

The town is named after the Lord Nelson pub, which is located in the centre of the town. The original Welsh name of 'Ffos y Gerddinen' is not commonly used today, "ffos" can mean a ditch or a moat and the word "cerddinen" means a mountain ash tree, common to the area and giving its name in English to the nearby village of Mountain Ash in the Cynon Valley.

**Did you know?**
This former mining village was home to Wernganol Colliery, which was once crowned the smallest colliery in the world.









DOLENNelson NelsonLINK

loops links cylchoedd dolennt

Caerphilly County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

# Nelson**LINK**




### What to see

Take a look at the purpose built, free standing, handball court in the centre of town. The court is one of only two remaining in the country and was built by Irish immigrants during the Industrial revolution. The town itself is a designated conservation area as its character and appearance portray the effects of the industrial revolution on a once agricultural area.

On the outskirts of the town (25 minutes walk), Llancaiach Fawr Manor, Caerphilly County Borough's principal tourist attraction is well worth a visit. Step back in time to the 17th Century and let the servants guide you around this historic manor where King Charles I once visited.

### Loop & Link Information

There are currently two distinct links from Route 47 into the village of Nelson. Each provides easy access into the village centre and both offer visually stimulating views. The first route takes you straight to the heart of the village and the square with it's striking mid 19th Century hand ball court. The second link traverses through the picturesque Wern Woodland Park and offers a more scenic route to the village centre.

### Gwybodaeth am Gylchoedd a Dolenni

Ar hyn o bryd, ceir dwy ddolen amlwg o Lwybr 47 i mewn i bentref Nelson. Mae'r naill a'r llall yn rhoi mynediad rhwydd i ganol y pentref ac yn llwybrau llawn golygfeydd trawiadol.Mae'r llwybr cyntaf yn eich tywys yn syth i ganol y pentref a'r sgwâr gyda'i gwrt llawbel trawiadol o ganol y 19eg ganrif. Mae'r ail ddolen yn croesi parc hardd Coetir y Wern ac yn cynnig llwybr mwy golygfaol i ganol y pentref.

### Pethau i'w gweld

Ewch i weld y cwrt llawbel pwrpasol sy'n sefyll ar ei dir ei hun yng nghanol y dref. Dim ond un o ddau o gyrtiau ydyw a adeiladwyd gan y mewnfudwyr o Iwerddon yn ystod y chwyldro diwydiannol. Mae'r dref ei hun yn ardal gadwraeth ddynodedig gan fod ei chymeriad a'i golwg yn portreadu effeithiau'r chwyldro diwydiannol ar ardal fu gynt yn dir amaethyddol.

Yng nghyffiniau'r dref (25 munud ar droed), mae Maenordy Llancaiach Fawr, prif atyniad Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n werth ei gweld. Camwch yn ôl i'r 17eg ganrif a gadewch i'r gweision eich tywys o amgylch y faenor hanesyddol yr ymwelodd y Brenin Siarl I â hi unwaith.

Facilities

Cyfleusterau

# **DOLEN**Nelson